



---

Astudiaethau israddedig mewn

# Y Gwyddorau Biolegol

---

# Cynnwys

Croeso	t.1
Ein cyrsiau	t.2
Cyrsiau sylfaen	t.16
Cynlluniau Meistr integredig	t.20
Blwyddyn integredig mewn diwydiant	t.26
Cyfleoedd byd-eang	t.28
Astudio trwy gyfrwng y Gymraeg	t.30
Ymchwil	t.32
Uchafbwyntiau ymchwil	t.34
Sut i wneud cais	t.36



## Gwybodaeth bwysig

Roedd yr wybodaeth a gyhoeddir am y rhaglenni gradd yn y llyfryn hwn yn gywir pan anfonwyd y ddogfen i'w hargraffu (Mai 2022), ond fe allai newid. Cyngor darpar fyfyrwr i edrych ar ein gwefan i gael yr wybodaeth a'r manylion diweddaraf am y cwrs, gan gynnwys ein gofynion mynediad, cyn gwneud cais, er mwyn bod yn sicr fod y cynllun yn addas i'w gofynion.

# Croeso

Croeso i'r Adran Gwyddorau Bywyd, canolfan ymchwil ac addysg o safon byd-eang yma ym Mhrifysgol Aberystwyth. Ein cenhadaeth yw gwella iechyd a lles pobl drwy weithgaredd ymchwil, addysg ac ymgysylltu.

Rydym yn darparu amgylchedd dysgu rhagorol ar gyfer eich datblygiad academiaidd a phersonol, gyda'r cyfleusterau diweddaraf ac ysgoloriaethau hael. Bydd darlithwyr ymroddgar ac ysbrydoledig yn dod â'ch cwrs yn fyw. Arweinir llawer o'n haddysgu gan ddiddordebau ymchwil blaengar ein staff.

Gallwn gynnig amrywiaeth eang o gyfleoedd dysgu i chi, yn cynnwys darlithoedd a seminarau rhyngweithiol, dosbarthiadau labordy, grwpiau tiwtorial bach, a chyrsiau maes. Mae'r hyblygrwydd o allu dewis o blith amrywiaeth o fodiwlau gwahanol yn golygu y gallwch deilwra eich cwrs i'ch diddordebau unigol. Cewch eich asesu mewn amrywiol ffyrdd, yn cynnwys arholiadau, adroddiadau labordy, cyflwyniadau a thraethodau, gyda'r cyfan wedi'i gynllunio i gyfoethogi eich setiau sgiliau penodol i'r pwnc, sgiliau personol a throsglwyddadwy.

Mae Aberystwyth ar lannau bae Ceredigion ar arfordir gorllewin Cymru, mewn amgylchedd naturiol syfrdanol. Mae'r ardal yn cynnig morlin gwyh ynghyd ag eangderau o weundir a dyffrynnoedd coediog, sy'n golygu mai Prifysgol Aberystwyth yw'r lle delfrydol i astudio ecoleg a phynciau cysylltiedig.

Ceir rhagor o wybodaeth am ein cyrsiau a chyfleoedd eraill yn y llyfryn hwn. Ymunwch â ni ar Ddiwrnod Agored neu Ddiwrnod Ymweld i Ymgeiswyr i gael golwg ar yr hyn sy'n gwneud Aberystwyth yn lle mor anhygoel i astudio.

**Yr Athro Iain Donnison**  
**Pennaeth Adran**



# Ein cyrsiau

## Anrhydedd sengl

Biocemeg	t.3
Bioleg	t.4
Bioleg a Newid Hinsawdd	t.6
Bioleg Ddynol ac Iechyd	t.8
Biowyddorau Milfeddygol	t.10
Geneteg	t.11
Geneteg a Biocemeg	t.12
Gwyddor Chwaraeon ac Ymarfer Corff	t.14
Gwyddorau Biofeddygol	t.16
Gwyddorau Bywyd	t.18
Microbioleg	t.19

## Graddau sylfaen

Bioleg	t.20
Bioleg a Newid Hinsawdd	t.22
Gwyddor Chwaraeon ac Ymarfer Corff	t.23

## Cynlluniau Meistr integredig

Biocemeg	t.24
Bioleg	t.24
Microbioleg	t.24

## Rydym yn hefyd cynnig:

- Amaethyddiaeth (BSc, 3 blynedd)
- Amaethyddiaeth (cynllun atodol) (BSc, 1 blwyddyn)
- Amaethyddiaeth (MAg, 4 blynedd)
- Amaethyddiaeth (Sylfaen) (FdSc, 2 blynedd)
- Amaethyddiaeth gyda Gwyddor Anifeiliaid (MAg, 4 blynedd)
- Amaethyddiaeth gyda Gwyddor Anifeiliaid (BSc, 3 blynedd)
- Amaethyddiaeth gyda Rheoli Busnes (BSc, 3 blynedd)
- Astudiaethau Ceffylau (cynllun atodol) (BSc, 1 blwyddyn)
- Astudiaethau Ceffylau (Sylfaen) (FdSc, 2 blynedd)
- Bioleg Planhigion (BSc, 3 blynedd)
- Bioleg y Môr a Dŵr Croyw (BSc, 3 blynedd)
- Bioleg y Môr a Dŵr Croyw (MBiol, 4 blynedd)
- Biowyddor Ceffylau a Milfeddygol (BSc, 3 blynedd)
- Cadwraeth Bywyd Gwyllt (BSc, 3 blynedd)
- Ecoleg (BSc, 3 blynedd)
- Gwyddor Anifeiliaid (BSc, 3 blynedd)
- Gwyddor Ceffylau (BSc, 3 blynedd)
- Swoleg (BSc, 3 blynedd)
- Swoleg (MBiol, 4 blynedd)
- Ymddygiad Anifeiliaid (BSc, 3 blynedd)

# Biocemeg ar gael drwy'r Gymraeg

## BSc (Anrh)

Gyda blwyddyn integredig mewn diwydiant (C701)

Yn ystod eich gradd Biocemeg yn Aberystwyth byddwch yn archwilio strwythurau a swyddogaethau'r moleciwlau sy'n creu cell, ac yn deall y modd y maent yn rhyngweithio mewn prosesau byw. Mae ein darlithwyr yn weithgar ym maes ymchwil, ac mae ganddynt brofiad uniongyrchol o ddarganfod cyffuriau, ymchwilio i dechnegau diagnostig, synthesis gweithredol cyfansoddion, a mwy.

Mae ein gradd Biocemeg yn rhoi pwys arbennig ar y sgiliau ymarferol y mae cyflogwyr yn chwilio amdanynt yn y diwydiannau fferyllol a biotechnoleg. Yn ystod eich astudiaethau byddwch yn archwilio'r technegau sydd wedi chwyldroi'r modd y mae bioleg celloedd, cemeg fiolegol, metabolaeth, a geneteg foleciwlaidd yn cael eu hastudio, trwy gyfrwng hyfforddiant arbenigol mewn protocol gwyddonol a gwaith ymarferol yn y labordy.


Dyma rai o'r cyfleoedd sydd ar gael i fyfyrwyr Biocemeg yn Aberystwyth:


- cymhwyso technegau moleciwlaidd gan gynnwys echdynnu, dilyniannu a dadansoddi DNA
- defnyddio electrofforesis gel ar gyfer gwahanu a dadansoddi proteinau'n ymarferol
- astudio nodweddu bioffisegol ar gyfer cineteg a thermodynameg adweithiau wedi'u catalyddio gan ensymau
- defnyddio labordai ymchwil ac addysgu helaeth gyda'r cyfarpar diweddaraf, gan gynnwys cyfleusterau bioddelwedd, dilyniannu DNA trwybwn uchel, proteomeg, metabolomeg a llwyfannau sbectrosgopig.

## Cyflogadwyedd

Fel un o raddedigion y radd hon, byddwch wedi datblygu'r set o sgiliau sydd eu hangen i weithio'n ddiogel ac yn annibynnol mewn amgylcheddau ymchwil a labordai diwydiannol. Byddwch felly wedi cael eich paratoi'n dda ar gyfer gyrfa yn y diwydiant fferyllol a biotechnolegol. Mae llawer o'n graddedigion hefyd yn mynd ymlaen i yrfaeod mewn addysg, neu'n astudio ymhellach ar lefel Meistr neu PhD.

## Ffeithiau Allweddol

 Math o radd: BSc.

 Cod UCAS: C700 (C701 gyda blwyddyn integredig mewn diwydiant).

## Modiwlau

Dyma'r modiwlau y mae'n bosibl y byddwch yn eu hastudio ar y cwrs hwn.

### Y flwyddyn gyntaf:

- Amrywiaeth Microbau/Microbial Diversity
- Biochemistry and the Cellular Basis of Life
- Comparative Animal Physiology
- Evolution and the Diversity of Life
- Exploring Genetics
- Metabolism
- Molecular Biochemistry
- Molecular Laboratory Skills
- Sgiliau Astudio a Chyfathrebu/Study and Communication Skills
- Y Blaned Werdd/The Green Planet.

### Yr ail flwyddyn:

- Applied Molecular Biology and Bioinformatics
- Cell and Cancer Biology
- Dulliau Ymchwil/Research Methods
- Practical Skills for Biochemists
- Proteins and Enzymes.


### Y flwyddyn olaf:

- Bioinformatics and Functional Genomics
- Biotechnology
- Molecular Pharmacology
- Prosiect Ymchwil/Research Project.

Ewch i'n gwefan i weld y modiwlau dewisol y gellir eu hastudio i ddatblygu eich diddordebau arbenigol.

## Cwrs achrededig:



 Hyd: 3 blynedd (mae C701 yn 4 blynedd).

## BSc (Anrh)

Gyda blwyddyn integredig mewn diwydiant

(C102)

Ar ein gradd Bioleg, byddwch yn astudio bioleg ar bob graddfa, o fioleg amgylcheddol i organebau cyfan a bioleg celloedd.

Byddwch yn canolbwyntio ar ddilyniannu genomau cyfan, dadansoddi eu hesblygiad, ac ymchwilio i swyddogaeth genynnau unigol, gan ddefnyddio dulliau dadansoddi sy'n torri tir newydd. Byddwch hefyd yn ystyried y benbleth foeseol sy'n codi yn sgil datblygiadau mewn gwybodaeth fiolegol, er enghraifft mewn triniaethau dadleuol ar gyfer clefydau neu feddygiaeth atgennedlu. Ein nod yw datblygu eich gwybodaeth a'ch sgiliau arbrofol a hefyd annog meddwl beirniadol, creadigol ac arloesol.

Dyma rai o'r cyfleoedd sydd ar gael i fyfyrwyr Bioleg yn Aberystwyth:

- cymhwyso technegau moleciwlaidd gan gynnwys echdynnu, dilyniannu a dadansoddi DNA
- defnyddio labordai ymchwil ac addysgu helaeth gyda'r cyfarpar diweddaraf, gan gynnwys cyfleusterau biodelweddu, dilyniannu DNA trwybwn uchel, proteomeg, metabolomeg a llwyfannau sbectrosgopig
- datblygu arbenigedd dadansodol uwch mewn biowybodeg, systemau gwybodaeth ddaearyddol, modelu cilfachau hinsoddol ac epidemioleg, a chaiff hynny ei gefnogi gan fynediad at gyfleusterau cyfrifiadurol uchel eu perfformiad.

### Cyflogadwyedd

Mae graddedigion diweddar wedi cael gwaith gydag awdurdodau addysg, Asiantaeth yr Amgylchedd, cyrff cadwraeth, cwmnïau fferyllol, y Gwasanaeth Iechyd Gwladol, canolfannau Bywyd Môr, labordai iechyd cyhoeddus a'r diwydiant dŵr, i roi rhai enghreifftiau.

## Ffeithiau Allweddol



Math o radd: BSc.



Cod UCAS: C100 (C102 gyda blwyddyn integredig mewn diwydiant).



Hyd: 3 blynedd (mae C102 yn 4 blynedd).

## Modiwlau

Dyma'r modiwlau y mae'n bosibl y byddwch yn eu hastudio ar y cwrs hwn.

### Y flwyddyn gyntaf:

- Amrywiaeth Microbau/Microbial Diversity
- Biochemistry and the Cellular Basis of Life
- Ecology/Ecology
- Evolution and the Diversity of Life
- Exploring Genetics
- Metabolism
- Molecular Laboratory Skills
- Sgiliau Astudio a Chyfathrebu/Study and Communication Skills
- Y Blaned Werdd/The Green Planet.

### Yr ail flwyddyn:

- Chromosome Dynamics
- Climate Change: Plants, Animals and Ecosystems
- Dulliau Ymchwil/Research Methods
- Evolution and Molecular Systematics.

### Y flwyddyn olaf:

- Biotechnology
- Frontiers in Plant Science
- Prosiect Ymchwil/Research Project.

Ewch i'n gwefan i weld y modiwlau dewisol y gellir eu hastudio i ddatblygu eich diddordebau arbenigol.

## Cwrs achredig:



# Bioleg a Newid Hinsawdd

## BSc (Anrh)

Gyda blwyddyn integredig mewn diwydiant (FC72)

Mae'r radd mewn Bioleg a Newid Hinsawdd yn archwilio ffyrdd creadigol o ymateb i heriau a chyfluoedd yr argyfwng hinsawdd presennol, a bydd yn rhoi ichi wybodaeth berthnasol sy'n benodol i'r pwnc, ynghyd â'r sgiliau a'r priodoleddau amlddisgyblaethol, rhyngpersonol sydd eu hangen er mwyn creu byd mwy cyfiawn a chynaliadwy. Os mai eich bwriad yw cael dylanwad mwy cadarnhaol ar y byd, bydd y cynllun hwn yn gychwyn cadarn ar y daith honno, a fydd yn un llawn boddhad.

Ar y radd hon, byddwch yn dysgu am y wyddoniaeth sy'n sail i brosesau'r hinsawdd, a sut mae dynol ryw wedi newid y prosesau hyn yn y cyfnod diweddar. Byddwch yn archwilio effeithiau newid hinsawdd ar foamrywiaeth ar lefel rhywogaethau, cynefinoedd ac ecosystemau, a'r posibilrwydd y bydd organebau a phoblogaethau yn esblygu yn sgil y bygythiad hwn. Gan weithio ar draws disgyblaethau, byddwch yn dysgu am yr angen am ymchwil wyddonol a mesurau rheoli wrth fynd i'r afael â'r materion pwysig hyn.


Dyma rai o'r cyfluoedd sydd ar gael i fyfyrwyr Bioleg a Newid Hinsawdd yn Aberystwyth:


- amrywiaeth eang o gynefinoedd ac ecosystemau lleol, ar y môr a'r tir - a lleoliadau delfrydol i astudio effeithiau newid hinsawdd ar foamrywiaeth, a'r cyfluoedd i liniaru'r newid
- cael y cyfle i gynnal ymchwil yn y maes, yn lleol a thramor
- gallu dewis o blith ystod o gyrsiau mewn gwledydd eraill
- cael y cyfle i weithio gydag ymchwilwyr academiaidd cydnabyddedig sy'n gweithio ar amrywiol agweddau ar effeithiau newid hinsawdd byd-eang ar ecosystemau naturiol yn y gorffennol, y presennol a'r dyfodol.


### Cyflogadwyedd

Gallai graddedigion ddilyn gyrfa ym maes rheoli, addasu a lliniaru newid hinsawdd, yn ogystal â gyrfaedd mewn meysydd cysylltiedig, megis addysg amgylcheddol a gwaith ymgynghorol neu gadwraeth.

## Ffeithiau Allweddol

 Math o radd: BSc.

 Cod UCAS: FC71 (FC72 gyda blwyddyn integredig mewn diwydiant).

 Hyd: 3 blynedd (mae FC72 yn 4 blynedd).

## Modiwlau

Dyma'r modiwlau y mae'n bosibl y byddwch yn eu hastudio ar y cwrs hwn.

### Y flwyddyn gyntaf:

- Amrywiaeth Microbau/Microbial Diversity
- Climate and Climate Change
- Ecology/Ecology
- Evolution and Diversity of Life
- Introduction to Conservation
- Sgiliau Astudio a Chyfathrebu/Study and Communication Skills
- The Biosphere
- Y Blaned Werdd/The Green Planet.

### Yr ail flwyddyn:

- Climate Change: Plants, Animals and Ecosystems
- Dulliau Ymchwil/Research Methods
- The Governance of Climate Change.

### Y flwyddyn olaf:

- Global Biodiversity Conservation
- Prosiect Ymchwil/Research Project.

Ewch i'n gwefan i weld y modiwlau dewisol y gellir eu hastudio i ddatblygu eich diddordebau arbenigol.



# Bioleg Ddynol ac Iechyd 25 ar gael drwy'r Gymraeg

## BSc (Anrh)

Gyda blwyddyn integredig mewn diwydiant (C195)

Mae'r cwrs Bioleg Ddynol ac Iechyd yn cyfuno dau faes y mae gennym gryfder ymchwil ac addysgu ynddynt yn ein Hathrofa, sef y gwyddorau biolegol a gwyddor chwaraeon ac ymarfer corff. Mae brwdfrydedd ac arbenigedd ein staff, a'n cyfleusterau gwyb, yn y ddau faes hyn wedi arwain at ddatblygu'r radd hon. Ein nod yw rhoi dealltwriaeth fanwl o'r prif amodau sy'n dylanwadu ar iechyd dynol yn yr unfed ganrif ar hugain.

Ar y radd hon byddwch yn astudio ystod o ddisgyblaethau biolegol gan gynnwys ffisioleg, microbiolog, imiwnoleg a geneteg, gan gyfuno'r disgyblaethau hyn ag astudiaethau biomecaneg dynol a seicoleg. Ein bwriad yw eich helpu i werthfawrogi'r modd y mae ymorth, ynghyd â gweithgarwch corfforol ac ymarfer corff rheolaidd yn chwarae rhan sylweddol wrth gynnal iechyd a lles. Bydd y cyfuniad unigryw hwn o bynciau yn sicrhau bod gennych ddealltwriaeth amddisgyblaethol o iechyd dynol, gan gynnwys newidiadau mewn ymddygiad a ffordd o fyw.


Dyma rai o'r cyfleoedd sydd ar gael i fyfyrwyr Bioleg Ddynol ac Iechyd yn Aberystwyth:


- defnyddio adnoddau ar gyfer dilyniannu DNA trwybwn uchel, proteomeg, metabolomeg a llwyfannau sbectrosgopig
- cymhwyso seicoleg i ddeall prosesau newid ymddygiad a'u perthnasedd i oedi datblygiad cyflyrau cronig gan gynnwys clefyd y galon, clefyd y siwgr, a chanser
- defnyddio'r offer ffisiolegol, biomecanyddol a seicolegol diweddaraf gan gynnwys: cyfarpar i sganio'r corff i fesur iechyd esgryn a chyfansoddiad y corff, dadansoddwyr cardiofasgwlaidd, anadlu a metaboledd, peiriannau perfformiad-uchel ar gyfer rhedeg, beicio a rhwyfo, ynghyd â fideo digidol cyfrifiadurol a phlât grym i alluogi dadansoddiad soffistigedig o symudiadau.


### Cyflogadwyedd

Bydd gan raddedigion Bioleg Ddynol ac Iechyd y sgiliau a'r wybodaeth ar gyfer amrywiaeth eang o yrfaeoddd ym maes biomeddygaeth, iechyd, a phroffesiynau cysylltiedig.

## Ffeithiau Allweddol

 Math o radd: BSc.

 Cod UCAS: C194 (C195 gyda blwyddyn integredig mewn diwydiant).

 Hyd: 3 blynedd (mae C195 yn 4 blynedd).

## Modiwlau

Dyma'r modiwlau y mae'n bosibl y byddwch yn eu hastudio ar y cwrs hwn.

### Y flwyddyn gyntaf:

- Biochemistry and the Cellular Basis of Life
- Exploring Genetics
- Human Physiological Systems
- Metabolism
- Microbial Diversity
- Psychology of Physical Activity and Health
- Research Designs to Assess and Monitor Clients
- Sgiliau Astudio a Chyfathrebu/Study and Communication Skills.

### Yr ail flwyddyn:

- Dulliau Ymchwil/Research Methods
- Immunology
- Sport and Exercise Physiology.

### Y flwyddyn olaf:

- Exercise Management in Health and Chronic Disease
- Molecular Pharmacology
- Solving Societal Issues using Applied and Integrated Approaches
- Traethawd Estynedig/Research Project.

Ewch i'n gwefan i weld y modiwlau dewisol y gallwch eu hastudio i ddatblygu eich diddordebau arbenigol.



# Biowyddorau Milfeddygol

## BSc (Anrh)

Gyda blwyddyn integredig mewn diwydiant (D907)

Mae ein gradd Biowyddorau Milfeddygol yn manteisio ar gryfder Aberystwyth yn y sector iechyd milfeddygol sydd wedi arwain at sefydlu Ysgol Gwyddor Filfeddygol Aberystwyth, sef yr unig Ysgol Filfeddygaeth yng Nghymru. Mae'r radd hon yn cael ei chyflwyno gan ddarlithwyr sy'n gwneud ymchwil mewn meysydd sy'n gysylltiedig ag afiechydon a lles milfeddygol, a gan filfeddygon sy'n gweithio yng Nghanolfan Milfeddygaeth Cymru yn Aberystwyth. Mae gennym hefyd gyfleusterau ar gyfer anifeiliaid mawr yn ein ffermydd masnachol a chanolfan ddysgu arbenigol ym maes ceffylau.

Ar y radd hon byddwch yn cyfuno agweddau moleciwlaidd, cellol a ffisiolegol cyfoes er mwyn deall bioleg anifeiliaid fferm, anifeiliaid anwes, ceffylau ac anifeiliaid gwyllt. Bydd eich safbwynt ar iechyd ac afiechyd milfeddygol yn seiliedig ar ymchwil a bydd yn cael ei integreiddio â dealltwriaeth o realiti gwaith milfeddygol. Ymhlith sgiliau lu, byddwch yn dysgu sut i gymhathu gwybodaeth o lenyddiaeth wyddonol, craffu ar ddata o safbwynt ansoddol a meintiol, ymateb i ddata newydd trwy ymchwiliadau labordy, a deall goblygiadau'r canfyddiadau ar gyfer maes milfeddygaeth.


Dyma rai o'r cyfleoedd sydd ar gael i fyfyrwyr Biowyddorau Milfeddygol yn Aberystwyth:


- cael eich addysgu gan lawfeddygon milfeddygol ac ymchwilwyr milfeddygol o safon fyd-eang
- profiad ymarferol o drin anifeiliaid yn ein canolfan geffylau a'n ffermydd, gyda'r technegau gwyddonol diweddaraf a ddysgir yn ein labordai modern
- cyfleoedd i symud ymlaen i nifer o yrfaoedd milfeddygol gan gynnwys rhaglenni gradd gwyddor filfeddygol ar ôl cwblhau'r radd hon yn llwyddiannus.


### Cyflogadwyedd

Fel un o'r raddedigion Biowyddorau Milfeddygol, byddwch wedi'ch paratoi'n drylwyr ar gyfer gwaith yn y sector iechyd anifeiliaid, ac wedi'ch ysbrydoli i ymdrin â heriau'r dyfodol, megis esblygiad pathogenau sy'n gwrthsefyll cyffuriau, effeithiau ffermio mwy dwys, a gofalu am anifeiliaid anwes sy'n heneiddio. Mae ein graddedigion mewn sefyllfa dda i weithio mewn meysydd megis ymchwil filfeddygol a labordai diagnostig milfeddygol, ymhlith eraill. Mae llawer o'r myfyrwyr ar y cwrs hwn yn gobeithio mynd ymlaen i astudio milfeddygaeth.

## Ffeithiau Allweddol







## Modiwlau

Dyma'r modiwlau y mae'n bosibl y byddwch yn eu hastudio ar y cwrs hwn.

### Y flwyddyn gyntaf:

- Amrywiaeth Microbau/Microbial Diversity
- Biochemistry and the Cellular Basis of Life
- Bioleg Cymhwysol Anifeiliaid/Applied Animal Biology
- Disease Diagnosis and Control
- Equine Anatomy and Physiology
- Exploring Genetics
- Molecular Laboratory Skills
- Sgiliau Astudio a Chyfathrebu/Study and Communication Skills.

### Yr ail flwyddyn:

- Animal Breeding: Genetics and Reproduction
- Dulliau Ymchwil/Research Methods
- Immunology
- Veterinary Health.

### Y flwyddyn olaf:

- Behaviour and Welfare of Domesticated Animals
- Prosiect Ymchwil/Research Project
- Veterinary Infectious Diseases
- Veterinary Pharmacology and Disease Control.

Ewch i'n gwefan i weld y modiwlau dewisol y gallwch eu dewis er mwyn datblygu eich diddordebau arbenigol.

# Geneteg

## BSc (Anrh)

Gyda blwyddyn integredig mewn diwydiant (C401)

Mae ein gradd Geneteg yn canolbwyntio ar gryfderau hirsefydlog Athrofa'r Gwyddorau Biolegol, Amgylcheddol a Gwledig mewn ymchwil ym maes geneteg. Mae gan yr Athrofa gyfleusterau ar gyfer dilyniannu DNA, bioddelweddu, y Ganolfan Genedlaethol Ffenomeg Planhigion, a chyfrifiadura uchel ei berfformiad ar gyfer biowybodeg. Bydd staff sy'n arbenigo yn y dulliau hyn yn llywio eich dysgu ar y radd Geneteg.

Fel un â gradd mewn Geneteg, byddwch yn gallu cyfrannu mewn modd gwybodus at y pynciau mwyaf cyfoes ym maes geneteg. Mae cynnwys y cwrs yn amrywio o hanfodion esblygiad i ffiniau geneteg fodern, gan gynnwys genomeg feddygol a biowybodeg. Byddwch yn astudio bioleg canser, geneteg cromosomau, mynegiant a datblygiad genynnau, geneteg esblygiad a phoblogaeth, a biotechnoleg. Byddwch hefyd yn cael hyfforddiant mewn protocolau gwyddonol a'r gweithdrefnau gwyddonol cywir ar gyfer cofnodi, dehongli ac adrodd ar ddata.


Dyma rai o'r cyfleoedd sydd ar gael i fyfyrwyr Geneteg yn Aberystwyth:


- cymhwyso technegau moleciwlaidd gan gynnwys echdynnu, dilyniannu a dadansoddi DNA
- mynediad i labordai ymchwil ac addysgu helaeth gyda'r cyfarpar diweddaraf, gan gynnwys cyfleusterau bioddelweddu, dilyniannu DNA trwybwn uchel, proteomeg, metabolomeg a llwyfannau sbectrosgopig
- y cyfle i fynychu cwrs maes preswyl wythnos gyfan yn Sir Benfro.

### Cyflogadwyedd

Bydd ein gradd Geneteg yn rhoi ichi ddigonedd o waith ymarferol yn y labordy, ac felly'r sgiliau i fynd ymlaen i yrfa broffesiynol ym maes geneteg mewn gofal iechyd, diwydiant neu addysg uwch. Mae cyfleoedd posibl yn cynnwys geneteg glinigol, geneteg fofeddygol, biotechnoleg, ymchwil fforensig, ymgynghori genetig, geneteg cadwraeth, a bridio planhigion. Mae'r cynllun hwn hefyd yn aml yn arwain at ymchwil uwchraddedig ar lefel Meistr a PhD.

## Ffeithiau Allweddol





## Modiwlau

Dyma'r modiwlau y mae'n bosibl y byddwch yn eu hastudio ar y cwrs hwn.

### Y flwyddyn gyntaf:

- Amrywiaeth Microbau/Microbial Diversity
- Biochemistry and the Cellular Basis of Life
- Ecology/Ecology
- Evolution and the Diversity of Life
- Exploring Genetics
- Metabolism
- Molecular Laboratory Skills
- Sgiliau Astudio a Chyfathrebu/Study and Communication Skills
- Y Blaned Werdd/The Green Planet.

### Yr ail flwyddyn:

- Applied Molecular Biology and Bioinformatics
- Cell and Cancer Biology
- Chromosome Dynamics
- Dulliau Ymchwil/Research Methods
- Evolution and Molecular Systematics.

### Y flwyddyn olaf:

- Bioinformatics and Functional Genomics
- Biotechnology
- Molecular Biology of Development
- Prosiect Ymchwil/Research Project.

Ewch i'n gwefan i weld y modiwlau dewisol y gellir eu hastudio i ddatblygu eich diddordebau arbenigol.

## Cwrs achrededig:





# Geneteg a Biocemeg

## BSc (Anrh)

Gyda blwyddyn integredig mewn diwydiant (CC48)

Mae'r radd hon yn archwilio'r rhyngwyneb rhwng Geneteg - a'i photensial diderfyn, bron, i'n cynorthwyo i ddeall iechyd ac afiechyd dynol, esblygiad, ac amrywiaeth pethau byw - a Biocemeg, sy'n rhoi dealltwriaeth fecanistig o sut mae genynnau yn rheoli bioleg organeb.

Nodweddion y radd hon yw'r integreiddio agos rhwng geneteg a biocemeg er mwyn deall geneteg foleciwlaidd iechyd ac afiechyd, a blaenoriaethu'r sgiliau ymarferol y ceir galw amdanynt ym maes ymchwil ac mewn diwydiant. Yn ystod eich astudiaethau, byddwch yn datblygu sylfaen gadarn o ddealltwriaeth mewn geneteg a biocemeg, gan gwmpasu agweddau megis geneteg ddynol, mynegiant genynnau, bioleg ddatblygiadol a bioleg cancer, biotechnoleg, peirianeg genetig a ffarmacoleg. Byddwch hefyd yn cael hyfforddiant mewn protocolau gwyddonol a'r fethodoleg arbrofol gywir ar gyfer cofnodi, dehongli ac adrodd ar amrywiaeth o ddata. Ar ddiwedd eich astudiaethau, byddwch wedi datblygu'r sgiliau angenrheidiol i weithio mewn amrywiaeth o amgylcheddau labordy proffesiynol.

Dyma rai o'r cyfleoedd sydd ar gael i fyfyrwyr Geneteg a Biocemeg yn Aberystwyth:

- cymhwyso technegau moleciwlaidd gan gynnwys echdynnu, dilyniannu a dadansoddi DNA
- defnyddio electrofforesis gel ar gyfer gwahanu a dadansoddi swyddogaethol o broteinau
- astudio nodweddau bioffisegol ar gyfer cineteg a thermodynameg adweithiau wedi'u cataleiddio gan ensymau
- mynediad i labordai ymchwil ac addysgu helaeth gyda'r cyfarpar diweddaraf, gan gynnwys cyfleusterau bioddelweddau, dilyniannu DNA trwybwn uchel, proteomeg, metabolomeg a llwyfannau sbectrosgopig.

### Cyflogadwyedd

Mae'r cynllun hwn yn cynnig llwybr at gyflogaeth mewn meysydd twf megis biofeddygaeth, gwyddoniaeth fforensig, profilio DNA (pobl, anifeiliaid a phlanhigion), sytogeneteg glinigol a chynghori genetig, biotechnoleg a chynhyrchu bwyd.

## Ffeithiau Allweddol



Math o radd: BSc.



Cod UCAS: CC47 (CC48 gyda blwyddyn integredig mewn diwydiant).



Hyd: 3 blynedd (mae CC48 yn 4 blynedd).

## Modiwlau

Dyma'r modiwlau y mae'n bosibl y byddwch yn eu hastudio ar y cwrs hwn.

### Y flwyddyn gyntaf:

- Amrywiaeth Microbau/Microbial Diversity
- Biochemistry and the Cellular Basis of Life
- Comparative Animal Physiology
- Evolution and the Diversity of Life
- Exploring Genetics
- Metabolism
- Molecular Biochemistry
- Molecular Laboratory Skills
- Sgiliau Astudio a Chyfathrebu/Study and Communication Skills
- Y Blaned Werdd/The Green Planet.

### Yr ail flwyddyn:


- Applied Molecular Biology and Bioinformatics
- Cell and Cancer Biology
- Chromosome Dynamics
- Dulliau Ymchwil/Research Methods
- Practical Skills for Biochemists
- Proteins and Enzymes.

### Y flwyddyn olaf:

- Bioinformatics and Functional Genomics
- Biotechnology
- Molecular Biology of Development
- Prosiect Ymchwil/Research Project.

Ewch i'n gwefan i weld y modiwlau dewisol y gellir eu hastudio i ddatblygu eich diddordebau arbenigol.

## Cwrs achrededig:





# Gwyddor Chwaraeon ac Ymarfer Corff <sup>17</sup> ar gael drwy'r Gymraeg

## BSc (Anrh)

Gyda blwyddyn integredig mewn diwydiant (C602)

Ar y radd hon byddwch yn elwa yn sgil arbenigedd ein gwyddonwyr chwaraeon ac ymarfer corff, sydd wedi gweithio â nifer o sefydliadau, timau ac athletwyr unigol, gan gynnwys y rheini sydd wedi llwyddo ar lefel uchel. O dan eu harweiniad hwy, byddwch yn datblygu eich sgiliau ymarferol eich hun yn ein labordai penodol ar gyfer chwaraeon ac ymarfer corff.

Ar ein cwrs Gwyddor Chwaraeon ac Ymarfer Corff, byddwch yn datblygu dealltwriaeth wyddonol o'r modd y mae'r corff dynol yn symud, yn ymarfer ac yn perfformio chwaraeon, a gwerthfawrogiad o'r modd y gall gwyddor chwaraeon ac ymarfer corff wella iechyd a gweithrediad y corff dynol, atal afiechyd ac anafiadau, neu wella perfformiad athletaidd. Byddwch hefyd yn datblygu sgiliau ymchwilio a dadansoddi data, sgiliau personol a sgiliau cyflogadwyedd a fydd yn rhoi ichi'r cyfle gorau i lwyddo yn eich gyrfa yn y dyfodol.

Dyma'r cyfleoedd sydd ar gael i fyfyrwyr Gwyddor Chwaraeon ac Ymarfer Corff yn Aberystwyth:

- mynediad rhydd at amrwiaeth eang o chwaraeon a chyfleusterau, gan gynnwys y rhai naturiol megis y llwybrau beicio mynydd uchel eu bri gerllaw yn Nant yr Arian, ein traethau a'n mynyddoedd rhagorol, ymhlith eraill
- defnyddio labordai safon y diwydiant a achredwyd gan Gymdeithas Gwyddor Chwaraeon ac Ymarfer Corff Prydain (BASES) yn Adeilad Carwyn James, adnodd pwrpasol gyda'r cyfleusterau diweddaraf ar gyfer dadansoddi perfformiad chwaraeon ac ymarfer corff mewn termau ffisiolegol, biomecanyddol a seicolegol.

### Cyflogadwyedd

Mae rhai o'n cyn-fyfyrwyr wedi mynd ymlaen i astudiaeth bellach a gyrfaoedd yn y Gwasanaeth Iechyd Gwladol, neu yn y Weinyddiaeth Amddiffyn. Mae eraill wedi mynd ymlaen i weithio fel gwyddonwyr chwaraeon ac ymarfer corff i glybiau chwaraeon proffesiynol (clybiau pêl-droed Bournemouth a Coventry City, clwb rygbi Scarlets Llanelli), ac mae nifer cynyddol yn sefydlu eu busnesau eu hunain.

## Ffeithiau Allweddol



Math o radd: BSc.



Cod UCAS: C600 (C602 gyda blwyddyn integredig mewn diwydiant).



Hyd: 3 blynedd (mae C602 yn 4 blynedd).

## Modiwlau

Dyma'r modiwlau y mae'n bosibl y byddwch yn eu hastudio ar y cwrs hwn.

### Y flwyddyn gyntaf:

- Biochemistry and the Cellular Basis of Life
- Fundamentals of Human Nutrition
- Human Anatomy and Kinesiology
- Human Physiological Systems
- Psychology of Physical Activity and Health
- Research Designs to Assess and Monitor Clients
- Sgiliau Astudio a Chyfathrebu/Study and Communication Skills.

### Yr ail flwyddyn:

- Applied and Integrated Studies
- Dulliau Ymchwil/Research Methods
- Improving Physical Activity and Sport Performance
- Motor Learning and Performance
- Sport and Exercise Physiology
- Sports Injury.

### Y flwyddyn olaf:


- Exercise Management in Health and Chronic Disease
- Solving Societal Issues using Applied and Integrated Approaches
- Sport and Exercise Nutrition
- Traethawd Estynedig/Research Project.

Ewch i'n gwefan i weld y modiwlau dewisol y gallwch eu hastudio i ddatblygu eich diddordebau arbenigol.

## Cwrs achrededig:



\*C600 yn unig



# Gwyddorau Biofeddygol

## (Maeth, Iechyd ac Ymarfer Corff)

### BSc (Anrh)

Gyda blwyddyn integredig mewn diwydiant

(B991)

Mae'r radd hon yn cynnig dealltwriaeth eang o sylfaen wyddonol bioleg feddygol, ac yn archwilio sut y gall maeth ac ymarfer corff gyfrannu at atal a thrin cyflyrau meddygol.

Byddwch yn cael eich dysgu gan staff sy'n arbenigwyr yn eu maes, ac yn astudio modiwlau ym meysydd pwnc bioleg celloedd a moleciwlau, anatomi a ffisioleg dynol, biocemeg, ffarmacoleg, microbioleg, imiwnoleg, maeth, metabolaeth, biowybodeg a geneteg. Byddwch yn datblygu dealltwriaeth o ddulliau ymchwil a'r gallu i gymhwyso'r rhain i bynciau newydd a diddorol. Ceir pwyslais penodol ar sgiliau labordy trwy gydol y radd, a fydd yn eich paratoi ar gyfer gwaith yn y gwyddorau biofeddygol.

Dyma rai o'r cyfleoedd sydd ar gael i fyfyrwyr Gwyddorau Biofeddygol yn Aberystwyth:

- mynediad i labordai ymchwil ac addysgu helaeth sy'n llawn o'r offer diweddaraf, gan gynnwys cyfleusterau bioddelweddu, dilyniannu DNA trwybwn uchel, proteomeg, metabolomeg a llwyfannau sbectrosgopig
- defnyddio offer a labordai ffisiolegol, biofecanyddol a seicolegol o'r radd flaenaf.

#### Cyflogadwyedd

Gall graddedigion ddilyn gyrfaoedd ym maes gofal iechyd clinigol a chymunedol, mewn labordai geneteg glinigol, treialon clinigol a'r sector rheoleiddiol, gwerthu a marchnata ym maes gofal iechyd a chynnyrch diagnostig, patholeg ddiagnostig a labordai clinigol, addysg, ac ymchwil a datblygu ar gyfer y diwydiant fferyllol, ymhlith pethau eraill.

### Ffeithiau Allweddol



Math o radd: BSc.



Cod UCAS: B990 (B991 gyda blwyddyn integredig mewn diwydiant).



Hyd: 3 blynedd (mae B991 yn 4 blynedd).

### Modiwlau

Dyma'r modiwlau y mae'n bosibl y byddwch yn eu hastudio ar y cwrs hwn.

#### Y flwyddyn gyntaf:

- Biochemistry and the Cellular Basis of Life
- Exploring Genetics
- Fundamentals of Human Nutrition
- Human Anatomy and Kinesiology
- Human Physiological Systems
- Metabolism
- Microbial Diversity
- Molecular Laboratory Skills
- Sgiliau Astudio a Chyfathrebu/Study and Communication Skills.

#### Yr ail flwyddyn:

- Applied Molecular Biology and Bioinformatics.
- Dulliau Ymchwil/Research Methods
- Sport and Exercise Physiology.

#### Y drydedd flwyddyn:

- Molecular Pharmacology
- Prosiect Ymchwil/Research Project
- Sport and Exercise Nutrition.

Ewch i'n gwefan i weld y modiwlau dewisol y gallwch eu hastudio i ddatblygu eich diddordebau arbenigol.



# Gwyddorau Bywyd

## BSc (Anrh)

Mae ein gradd Gwyddorau Bywyd wedi'i chynllunio'n benodol i gynnig llwybr amgen i chi at addysg uwch i astudio un o'n graddau gwyddorau biolegol. Gallech fod yn gymwys i'r cynllun os oes gennych y cymwysterau i fynd ymlaen i addysg uwch ond nid y cymwysterau perthnasol mewn gwyddoniaeth Safon Uwch (neu gyfatebol), os ydych yn dod o gefndir academiaidd anhraddodiadol, neu os nad ydych wedi cyflawni'ch potensial addysgol cyflawn hyd yn hyn.

Mae'r flwyddyn sylfaen mewn Gwyddorau Bywyd yn cael ei dysgu gan staff o Athrofa'r Gwyddorau Biolegol, Amgylcheddol a Gwledig, ac mae'n cynnwys rhaglen hollol integredig o ddarlithoedd, dosbarthiadau ymarferol, gweithdai a thiworialau mewn bioleg a phynciau cysylltiedig. Bydd y cwrs hwn yn rhoi ichi sylfaen gadarn mewn ystod o ddisgyblaethau gwyddonol gan gynnwys biocemeg, botaneg, bioleg celloedd, ecoleg, esblygiad, geneteg, microbiolog, swoleg, sgiliau astudio a thechnegau maes a labordy biolegol. Ar ddiwedd y flwyddyn sylfaen, byddwch wedi datblygu'r wybodaeth a'r sgiliau sydd eu hangen i symud ymlaen i flwyddyn gyntaf un o'n cynlluniau gradd.

### Cyflogadwyedd

Mae'r radd sylfaen mewn Gwyddorau Bywyd yn cynnig llwybr at addysg uwch, a thrwy hynny amrywiaeth o gyfleoedd cyffrous ar gyfer cyflogaeth a hyfforddiant pellach. Gan ddibynnu ar eich dewis o ddisgyblaeth, byddwch yn ymgeisydd cryf am waith fel gwyddonydd ymchwil, swyddog cadwraeth, darlithydd addysg uwch neu athro ysgol uwchradd.

## Modiwlau

Dyma'r modiwlau y mae'n bosibl y byddwch yn eu hastudio ar y cwrs hwn.

- Communication Skills
- Molecules and Cells
- Organisms and the Environment
- Practical Skills for Biologists.


Bydd y modiwlau y byddwch yn eu hastudio ar ôl eich blwyddyn gyntaf yn dibynnu ar y radd y byddwch yn ei dewis.

I weld y modiwlau sydd ar gael, gweler tudalennau'r radd berthnasol yn y prospectws hwn, ewch i'n gwefan, neu cysylltwch â ni.

## Ffeithiau Allweddol







# Microbioleg

## BSc (Anrh)

Gyda blwyddyn integredig mewn diwydiant (C502)

Ar ein gradd Microbioleg byddwch yn archwilio'r organebau sy'n rhy fach i gael eu gweld â'r llygad. Mae'r rhain yn cynnwys firysau, bacteria, protistiaid, a ffyngau. Mae micro-organebau yn hanfodol i'n dealltwriaeth o fywyd ar y Ddaear - maent yn effeithio ar afiechydon mewn pobl ac anifeiliaid, ar gynhyrchu a dirywiad bwyd ac yn rhan ganolog o gylchredau maetholion byd-eang.

Wrth astudio Microbioleg, byddwch yn derbyn hyfforddiant ym maes imiwnoleg, geneteg, biocemeg, bioleg celloedd, a dulliau ymchwil. Byddwch yn dysgu am bryderon byd-eang megis ymwrthedd gwrthficrobaidd a phathogenau sy'n dod i'r fei, yn ogystal â'r defnydd buddiol o ficrobau mewn biotechnoleg ar gyfer cynhyrchu bwyd ac amaethyddiaeth. Trwy gydol y cwrs ceir ffocws cryf ar hyfforddiant ymarferol mewn technegau microbiologol a moleciwlaidd, a fydd yn eich paratoi ar gyfer eich gyrfaoedd yn y dyfodol fel gwyddonwyr proffesiynol.


Dyma rai o'r cyfleoedd sydd ar gael i fyfyrwyr Microbioleg yn Aberystwyth:


- mynediad i labordai ymchwil ac addysgu helaeth gyda'r cyfarpar diweddaraf ar gyfer bioddelweddu, sytomereg llyf, ymhlith eraill
- cymhwyso technegau moleciwlaidd gan gynnwys echdynnu, dilynianu a dadansoddi DNA
- cael eich dysgu gan staff sy'n weithgar ym maes ymchwil gydag arbenigedd mewn microbiolog gan gynnwys bioamddiffyn, rhyngweithiadau anifail-microbau, epidemioleg a biodanwydd.

### Cyflogadwyedd

Bydd ein gradd mewn Microbioleg yn rhoi ichi'r sgiliau i fynd i yrfa mewn gofal iechyd, diwydiant, neu addysg. Mae graddedigion diweddar wedi cael eu cyflogi mewn rolau datblygu neu werthu gan gwmnïau cyflenwi labordai, wedi mynd i'r sector biotechnoleg, neu i wneud ymarfer dysgu.

## Ffeithiau Allweddol





## Modiwlau

Dyma'r modiwlau y mae'n bosibl y byddwch yn eu hastudio ar y cwrs hwn.

### Y flwyddyn gyntaf:

- Amrywiaeth Microbau/Microbial Diversity
- Biochemistry and the Cellular Basis of Life
- Ecology/Ecology
- Evolution and the Diversity of Life
- Exploring Genetics
- Metabolism
- Molecular Laboratory Skills
- Sgiliau Astudio a Chyfathrebu/Study and Communication Skills
- The Biosphere.

### Yr ail flwyddyn:

- Dulliau Ymchwil/Research Methods
- Monitro a Microbioleg Amgylcheddol/ Environmental Microbiology and Monitoring
- One Health Microbiology
- Sgiliau Ymarferol a Phroffesiynol mewn Microbioleg/Practical and Professional Skills in Microbiology.


### Y flwyddyn olaf:

- Biotechnology
- Microbial Pathogenesis
- Prosiect Ymchwil/Research Project.

Ewch i'n gwefan i weld y modiwlau dewisol y gellir eu hastudio i ddatblygu eich diddordebau arbenigol.

## Cwrs achrededig:





## (gyda blwyddyn sylfaen integredig)

### BSc


Mae Athrofa'r Gwyddorau Biolegol, Amgylcheddol a Gwledig (IBERS) yn adran gwyddorau biolegol sy'n arwain yn fyd-eang, a'i hymchwilyr yn ymchwilio i heriau byd-eang megis diogelwch bwyd, iechyd a lles, bio-ynni a chynaliadwyedd, ac effeithiau newid yn yr hinsawdd. Wedi'i gynllunio ar gyfer darpar fyfyrwyr nad oes ganddynt gefndir academaidd ddigonol neu berthnasol, mae'r cwrs blwyddyn sylfaen integredig yn ddewis perffaith i gael mynediad at y cynllun gradd hwn sy'n hynod boblogaidd. Yn ystod y flwyddyn sylfaen, byddwch yn cael gwybod am hanfodion Bioleg a fydd yn rhoi sylfaen gadarn ichi ac yn eich galluogi i fynd ymlaen i fwynhau'r cwrs israddedig llawn.


Ar ein gradd Bioleg gyda blwyddyn sylfaen integredig, byddwch yn astudio bioleg ar bob graddfa, o fioleg amgylcheddol i organebau cyfan a bioleg celloedd. Byddwch yn canolbwyntio ar ddilyniannu genomau cyfan, dadansoddi eu hesblygiad, ac ymchwilio i swyddogaeth genynnau unigol, gan ddefnyddio dulliau dadansoddi sy'n torri tir newydd. Byddwch hefyd yn ystyried y benbleth foeseogol sy'n codi yn sgil datblygiadau mewn gwybodaeth fiolegol, er enghraifft mewn triniaethau dadleuol ar gyfer clefydau neu feddyginiaeth atgenhedlu. Ein nod yw datblygu eich gwybodaeth a'ch sgiliau arbrofol a hefyd annog meddwl beirniadol, creadigol ac arloesol.


Dyma rai o'r cyfleoedd sydd ar gael i fyfyrwyr Bioleg (gyda blwyddyn sylfaen integredig) yn Aberystwyth:

- cymhwyso technegau moleciwlaidd gan gynnwys echdynnu, dilyniannu a dadansoddi DNA
- mynediad i labordai ymchwil ac addysgu helaeth gyda'r cyfarpar diweddaraf, gan gynnwys cyfleusterau bioddelweddu, dilyniannu DNA trwybwn uchel, proteomeg, metabolomeg a llwyfannau sbectrosgopig
- datblygu arbenigedd dadansoddol uwch mewn biowybodeg, systemau gwybodaeth ddaearyddol, modelu cilfachau hinsoddol ac epidemioleg, a chaiff hynny ei gefnogi gan fynediad at gyfleusterau cyfrifiadurol uchel eu perfformiad.

### Ffeithiau Allweddol

 Math o radd: BSc.

 Cod UCAS: C101.

 Hyd: 4 blynedd.

### Modiwlau

Dyma'r modiwlau y mae'n bosibl y byddwch yn eu hastudio ar y cwrs hwn.

#### Y flwyddyn gyntaf:

- Communication Skills
- Molecules and Cells
- Organisms and the Environment
- Practical Skills for Biologists.

#### Yr ail flwyddyn:

- Amrywiaeth Microbau/Microbial Diversity
- Biochemistry and the Cellular Basis of Life
- Ecoleg/Ecology
- Evolution and the Diversity of Life
- Exploring Genetics
- Metabolism
- Molecular Laboratory Skills
- Sgiliau Astudio a Chyfathrebu/Study and Communication Skills
- Y Blaned Werdd/The Green Planet.

#### Y drydedd flwyddyn:

- Chromosome Dynamics
- Climate Change: Plants, Animals and Ecosystems
- Dulliau Ymchwil/Research Methods
- Evolution and Molecular Systematics.

#### Y flwyddyn olaf:

- Biotechnology
- Frontiers in Plant Science
- Prosiect Ymchwil/Research Project.

Ewch i'n gwefan i weld y modiwlau dewisol y gellir eu hastudio i ddatblygu eich diddordebau arbenigol.

#### Cyflogadwyedd

Mae graddedigion diweddar wedi mynd i gyflogaeth gydag awdurdodau addysg, Asiantaeth yr Amgylchedd, cyrff cadwraeth, cwmnïau fferyllol, y Gwasanaeth Iechyd Gwladol, canolfannau Bywyd Môr, labordai iechyd cyhoeddus a'r diwydiant dŵr, i roi rhai enghreifftiau.



# Bioleg a Newid Hinsawdd

(gyda blwyddyn sylfaen integredig)

## BSc

Wedi'i gynllunio ar gyfer darpar fyfyrwyr nad oes ganddynt gefndir academaidd ddigonol neu berthnasol, mae'r cwrs gyda blwyddyn sylfaen integredig yn ddewis perffaith i gael mynediad at y cynllun gradd hynod boblogaidd hwn. Yn ystod y flwyddyn sylfaen, cewch eich dysgu am hanfodion Bioleg a bydd hynny'n rhoi ichi sail gadarn i allu mynd ymlaen i fwynhau'r radd israddedig lawn.

Ar y radd hon, byddwch yn dysgu am y wyddoniaeth sy'n sail i brosesau'r hinsawdd, a sut mae dynol ryw wedi newid y prosesau hyn yn y cyfnod diweddar. Byddwch yn archwilio effeithiau newid hinsawdd ar foamrywiaeth ar lefel rhywogaethau, cynefinoedd, a'r ecosystemau, a'r posibilrwydd y bydd organebau a phoblogaethau yn esblygu yn sgil y bygythiad hwn. Gan weithio ar draws disgyblaethau, byddwch yn dysgu am yr angen am ymchwil wyddonol a mesurau rheoli wrth fynd i'r afael â'r materion pwysig hyn.

Dyma rai o'r cyfleoedd sydd ar gael i fyfyrwyr Bioleg a Newid Hinsawdd (gyda blwyddyn sylfaen integredig) yn Aberystwyth:

- amrywiaeth eang o gynefinoedd ac ecosystemau lleol, ar y môr a'r tir - a lleoliadau delfrydol i astudio effeithiau newid hinsawdd ar foamrywiaeth, a'r cyfleoedd i liniaru'r newid
- cyfle i gynnal ymchwil yn y maes, yn lleol a thramor
- cael gweithio gydag ymchwilwyr academaidd cydnabyddedig sy'n gweithio ar amrywiol agweddau ar effeithiau newid hinsawdd byd-eang ar ecosystemau naturiol yn y gorffennol, y presennol a'r dyfodol.

### Cyflogadwyedd

Mae ein graddedigion yn gymwys i ddilyn gyrfa ym maes rheoli, addasu a lliniaru newid yn yr hinsawdd, yn ogystal â gyrfaedd mewn meysydd cysylltiedig, megis addysg amgylcheddol a gwaith ymgynghorol neu gadwraeth.

## Modiwlau

Dyma'r modiwlau y mae'n bosibl y byddwch yn eu hastudio ar y cwrs hwn.

### Y flwyddyn gyntaf:

- Communication Skills
- Molecules and Cells
- Organisms and the Environment
- Practical Skills for Biologists.

### Yr ail flwyddyn:

- Amrywiaeth Microbau/Microbial Diversity
- Climate Change: Impacts, Perceptions, Adaptations
- Ecology/Ecology
- Evolution and Diversity of Life
- Introduction to Conservation
- Sgiliau Astudio a Chyfathrebu/Study and Communication Skills
- Climate and Climate Change
- Y Blaned Werdd/The Green Planet.

### Y drydedd flwyddyn:


- Climate Change: Plants, Animals and Ecosystems
- Dulliau Ymchwil/Research Methods
- The Governance of Climate Change.

### Y flwyddyn olaf:


- Global Biodiversity Conservation
- Prosiect Ymchwil/Research Project.

Ewch i'n gwefan i weld y modiwlau dewisol y gellir eu hastudio i ddatblygu eich diddordebau arbenigol.

## Ffeithiau Allweddol

 Math o radd: BSc.

 Cod UCAS: FC7F.

 Hyd: 4 blynedd.

# Gwyddor Chwaraeon ac Ymarfer Corff

(gyda blwyddyn sylfaen integredig)

## BSc (Anrh)

Wedi'i gynllunio ar gyfer darpar fyfyrwyr nad oes ganddynt gefndir academaidd ddigonol neu berthnasol, mae'r cwrs gyda blwyddyn sylfaen integredig yn ddewis perffaith. Bydd y flwyddyn sylfaen yn rhoi ichi sail gadarn a fydd yn eich galluogi i ymuno â'r radd israddedig lawn o'r ail flwyddyn ymlaen.

Ar ein cwrs Gwyddor Chwaraeon ac Ymarfer Corff, byddwch yn datblygu dealltwriaeth wyddonol o'r modd y mae'r corff dynol yn symud, yn ymarfer ac yn perfformio chwaraeon, a gwerthfawrogiad o'r modd y gall gwyddor chwaraeon ac ymarfer corff wella iechyd a gweithrediad y corff dynol, atal afiechyd ac anafiadau, neu wella perfformiad athletaidd. Byddwch hefyd yn datblygu sgiliau ymchwilio a dadansoddi data, sgiliau personol a sgiliau cyflogadwyedd a fydd yn rhoi ichi'r cyfle gorau i lwyddo yn eich gyrfa yn y dyfodol.


Dyma rai o'r cyfleoedd sydd ar gael i fyfyrwyr Gwyddor Chwaraeon ac Ymarfer Corff (gyda blwyddyn sylfaen integredig) yn Aberystwyth:

- mynediad rhwydd at amrywiaeth eang o chwaraeon a chyfleusterau, gan gynnwys y rhai naturiol megis y llwybrau beicio mynydd uchel eu bri gerllaw yn Nant yr Arian, ein traethau a'n mynyddoedd rhagorol, i enwi rhai
- defnyddio labordai safon y diwydiant a achredwyd gan Gymdeithas Gwyddor Chwaraeon ac Ymarfer Corff Prydain (BASES) yn Adeilad Carwyn James, adnodd pwrpasol gyda'r cyfleusterau diweddaraf ar gyfer dadansoddi perfformiad chwaraeon ac ymarfer corff mewn termau ffisiolegol, biomecanyddol a seicolegol.


### Cyflogadwyedd

Mae rhai o'n cyn-fyfyrwyr wedi mynd ymlaen i astudiaeth bellach a gyrfaedd yn y Gwasanaeth Iechyd Gwladol, neu yn y Weinyddiaeth Amddiffyn. Mae eraill wedi mynd ymlaen i weithio fel gwyddonwyr chwaraeon ac ymarfer corff i glybiau chwaraeon proffesiynol (clybiau pêl-droed Bournemouth a Coventry City, clwb rygbi Scarlets Llanelli), ac mae nifer cynyddol yn sefydlu eu busnesau eu hunain.

## Ffeithiau Allweddol

 Math o radd: BSc.

 Cod UCAS: C60F.

 Hyd: 4 blynedd.

## Modiwlau

Dyma'r modiwlau y mae'n bosibl y byddwch yn eu hastudio ar y cwrs hwn.

### Y flwyddyn gyntaf:

- Molecules and Cells
- Communication Skills
- Organisms and the Environment
- Practical Skills for Biologists.

### Yr ail flwyddyn:

- Biochemistry and the Cellular Basis of Life
- Fundamentals of Human Nutrition
- Human Anatomy and Kinesiology
- Human Physiological Systems
- Psychology of Physical Activity and Health
- Research Designs to Assess and Monitor Clients
- Sgiliau Astudio a Chyfathrebu/Study and Communication Skills.

### Y drydedd flwyddyn:

- Applied and Integrated Studies
- Improving Physical Activity and Sport Performance
- Motor Learning and Performance
- Dulliau Ymchwil/Research Methods
- Sport and Exercise Physiology
- Sports Injury.

### Y flwyddyn olaf:

- Traethawd Estynedig/Research Project
- Exercise Management in Health and Chronic Disease
- Solving Societal Issues using Applied and Integrated Approaches
- Sport and Exercise Nutrition.

Ewch i'n gwefan i weld y modiwlau dewisol y gallwch eu hastudio i ddatblygu eich diddordebau arbenigol.

# Cynlluniau Gradd Meistr Integredig

## MBiol

MBiol Biocemeg (C709)

MBiol Bioleg (C109)

MBiol Microbioleg (C509)

Mae ein cynlluniau Meistr Integredig yn rhoi'r cyfle i chi gyfuno BSc â blwyddyn ychwanegol o astudio er mwyn graddio â chymhwyster Meistr. Mae'r cyrsiau hyn yn datblygu'r ehangder a'r dyfnder gwybodaeth, a'r gallu a'r hyder i ddefnyddio dulliau ymchwil, sy'n angenrheidiol ar gyfer gyrfa fel gwyddonydd proffesiynol.

Yn ystod eich blwyddyn olaf o astudio ar lefel Meistr, cewch gyfle i gymhwyso eich gwybodaeth a'ch dealltwriaeth benodol am y pwnc i brosiect ymchwil mawr gwyddonol, annibynnol, gan gydweithio'n agos ag un o grwpiau ymchwil ein Hathrofa. Byddwch hefyd yn astudio modiwlau trwy gwrs gyda'r nod o roi golwg fanylach ichi ar y technegau a'r damcaniaethau mwyaf cyfoes yn y gwyddorau biolegol. Gyda'i gilydd, bydd y rhain yn eich galluogi i ddatblygu'r sgiliau hanfodol sy'n ofynnol ar gyfer bod yn wyddonydd proffesiynol heddiw.

Dyma rai o'r cyfleoedd sydd ar gael i fyfyrwyr Gradd Meistr Integredig yn Aberystwyth:

- mynediad i labordai ymchwil a dysgu lle ceir y cyfarpar diweddaraf, gan gynnwys adnoddau bioddelweddu, dilyniannu DNA â thrwybwn uchel, sytometreg llif, eplesu o raddfa labordy i blanhigyn peilot, amgylcheddau arbrofol eithafol, a phlatfformau proteomeg, metabolomeg a sbectrosgopig
- systemau acwariwm ac ystafelloedd tyfu i gynnal organebau môr, tir, a dŵr croyw
- y cyfle i gwblhau eich prosiect lefel Meistr o fewn i un o nifer o grwpiau ymchwil blaengar.

## Ffeithiau Allweddol



Math o radd: MBiol.



Hyd: 4 blynedd.

## Modiwlau craidd

Dyma'r modiwlau craidd y byddwch o bosibl yn eu hastudio ym mlwyddyn olaf y radd Meistr:

- Field and Laboratory Techniques
- Frontiers in Biosciences
- MBiol Research Project
- Research Methods in the Biosciences.

## Cwrs achrededig:




ar gael drwy'r Gymraeg

- 21% MBiol Biocemeg (C709)
- 27% MBiol Bioleg (C109)
- 31% MBiol Microbioleg (C509)

## Cyflogadwyedd

Cafodd ein cynlluniau Meistr Integredig eu creu'n benodol i gwrdd â'r cynnydd yn y galw am staff sydd â'r cymwysterau addas i weithio ar lefel uchel mewn ymchwil wyddonol, datblygu, darlithio, hyfforddi ac addysg, mentrau cyhoeddus a phreifat, gwaith cynghori ac ymgynghori ym Mhrydain a ledled y byd. Cydnabyddir bod yr MBiol yn radd gyfatebol i MSc ar gyfer mynd ymlaen i ennill ysgoloriaethau PhD, a'i bod yn sail ragorol i yrfa fel gwyddonydd proffesiynol.



# Blwyddyn integredig mewn diwydiant

Os ydych chi'n dymuno ehangu eich gorwelion a chael blas o'r gweithle neu brofi gyrfa drwy leoliad gwaith, bydd y flwyddyn integredig mewn diwydiant yn cryfhau ac yn gwella eich cyfleoedd gyrfa ar ôl graddio. Mae'r rhan fwyaf o'n cyrsiau anrhydedd sengl ar gael gyda'r opsiwn o gael blwyddyn integredig mewn diwydiant.

Cynhelir y flwyddyn integredig mewn diwydiant yn eich trydedd flwyddyn ac yna byddwch yn dychwelyd i Aberystwyth i gwblhau eich gradd yn y bedwaredd flwyddyn. Caiff y flwyddyn ei hasesu ac mae'n cyfrannu at farc terfynol eich gradd.

Manteision:

- Mwy cyflogadwy wrth raddio
- Mwy tebygol o gael cyflog cychwynnol uwch
- Mwy tebygol o sicrhau swydd ar lefel gradd.

Mae ein myfyrwyr wedi nodi manteision ychwanegol:

- Dod i wybod beth hoffech chi ei wneud mewn gwirionedd ar ôl graddio
- Profiad gwych - archwilio maes newydd a all fod dramor
- Gwneud eich blwyddyn olaf yn haws
- Datblygu eich rhwydweithiau cymdeithasol a phroffesiynol.

Gall ceisiadau a chyfweliadau gymryd llawer o amser a byddwch yn graddio flwyddyn yn hwyrach na'ch ffrindiau yn y brifysgol, ond mae manteision y flwyddyn integredig mewn diwydiant yn bendant yn gorbwysu'r anfantaision.

Pa gymorth sydd ar gael?

- Ceir cymorth gan aelod academiaidd o staff sy'n bennaf gyfrifol am fyfyrwyr y flwyddyn integredig mewn diwydiant ac ymgynghorydd Gyrfaoedd yr adran, yn gweithio law yn llaw gyda'r Gwasanaeth Gyrfaoedd.
- Yn eich blwyddyn gyntaf cewch arweiniad ar sut i archwilio cyfleoedd gyrfa a chryfhau eich cyflogadwyedd
- Yn eich ail flwyddyn byddwch yn cael help i chwilio am swyddi, ysgrifennu CV, llythyrau eglurhaol a gwneud ceisiadau. Byddwch yn derbyn ymarfer cyfweliad ffurfiol a chymeradwyaeth swyddogol i'ch lleoliad(au)
- Yn ystod eich Blwyddyn mewn Diwydiant byddwch yn cael cyswllt a chefnogaeth reolaidd a bydd goruchwyliwr academiaidd yn ymweld â chi.

## Emily, Technegydd Labordy Cynorthwyol, Micropharm, y DU

Mae fy lleoliad gwaith mewn labordy felly mae'r profiad rwyf i wedi'i ennill yn bennaf yn seiliedig ar sgiliau. Rwyf i wedi dysgu sut i osod profion seitowenwynder a thrypsin, trin nitrogen hylifol, calibro pipedau a sut i ddefnyddio darnau amrywiol eraill o gyfarpar y labordy. Ond yn ogystal rwyf i wedi dysgu sut i gyflwyno fy nghanfyddiadau mewn cyfarfodydd ac ysgrifennu SOPs i eraill eu deall. Rwyf i'n credu y bydd fy lleoliad gwaith yn helpu fy ngyrfa gan ei fod yn dangos bod gennyf 12 mis llawn o brofiad labordy wrth ymgeisio am swyddi. Mae hefyd wedi cadarnhau i mi fod gweithio i gwmni fferyllol yn rhywbeth y byddwn i'n hoffi ei wneud ar ôl graddio gan fy mod wedi mwynhau fy lleoliad gwaith hyd yma.



# Cyfleoedd byd-eang



Mae tîm Cyfleoedd Byd-eang Aberystwyth yn cynnig amrywiaeth gyffrous o ddewisiadau ichi fynd dramor am ran o'ch gradd: o gyrsiau byr a chyfleoedd i wirfoddoli yn ystod yr haf i dreulio semester neu flwyddyn lawn yn astudio'r pwnc o'ch dewis yn un o'r prifysgolion sy'n bartner inni.

Mae'r brifysgol hefyd yn cynnig nifer o gyrsiau sy'n cynnwys blwyddyn integredig yn astudio dramor. Mae hyn yn eich galluogi i astudio yn un o'n prifysgolion partner yn Ewrop neu mewn rhan arall o'r byd am un neu ddau semester yn ystod eich trydedd blwyddyn, gan ddychwelyd i Aberystwyth ar gyfer eich blwyddyn derfynol ac i raddio.

Mae adroddiadau'n dangos bod myfyrwyr sy'n astudio dramor yn fwy deniadol i gyflogwyr ac yn ennill mwy o gyflog na'u cyfoedion. Cymrwch fantais o'r cyfle unigryw hwn i wella eich sgiliau allweddol trwy ddewis astudio dramor.



Sydney



Denmarc



Montana



St. Petersburg



Hong Kong



Washington, DC



Bergen



Awstria



Ottawa



# Astudio trwy gyfrwng y Gymraeg

Gellir astudio pob cynllun gradd israddedig yn Adran Gwyddorau Bywyd yn rhannol drwy gyfrwng y Gymraeg. Mewn rhai cynlluniau gradd, mae dros hanner y modiwlau ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg.

Gallwch ddewis cyflwyno eich holl waith cwrs, yn cynnwys aseiniadau a chyflwyniadau llafar drwy gyfrwng y Gymraeg a chwblhau eich arholiadau ysgrifenedig yn Gymraeg, beth bynnag yw cyfrwng addysgu'r modiwl. Mae'r Adran hefyd yn sicrhau bod yr holl fyfyrwyr sy'n siarad Cymraeg yn cael tiwtor personol a thiwtor traethawd hir sy'n gallu siarad yr iaith. Mae'r trefniadau addysgu hyn yn golygu bod ein darpariaeth cyfrwng Cymraeg ar gael i fyfyrwyr o amrywiaeth o gefndiroedd Cymraeg.

Mae astudio drwy gyfrwng y Gymraeg yn fanteisiol mewn sawl ffordd. Mae'r manteision hyn yn cynnwys gwell cyfleoedd swyddi, cael eich addysgu mewn grwpiau llai a bod yn rhan o gymuned Gymraeg gyfeillgar a chroesawgar.

Bydd yr holl fyfyrwyr sy'n astudio modiwlau cyfrwng Cymraeg yn gymwys i dderbyn ysgoloriaeth astudio cyfrwng Cymraeg y Brifysgol, werth hyd at £250 y flwyddyn. Ymhellach, mae llawer o gyrsiau gradd yn gymwys am ysgoloriaethau israddedig y Coleg Cymraeg Cenedlaethol sydd werth £1500 dros dair blynedd.

I gael rhagor o wybodaeth am yr ysgoloriaethau hyn ac i gael rhestr o'r cynlluniau gradd cymwys gweler gwefan y Coleg Cymraeg Cenedlaethol: [www.colegcymraeg.ac.uk/cy/astudio/trwrygymraeg](http://www.colegcymraeg.ac.uk/cy/astudio/trwrygymraeg)



# Ymchwil

Mae'r Gwyddorau Biolegol yn Aberystwyth yn rhan o Adran Gwyddorau Bywyd, Athrofa o safon ryngwladol. Y mae ei hymchwil yn cyfrannu at ddatrys materion byd-eang fel atal afiechydon anghueuol, diogelu cyflenwadau bwyd a thyfu cynwadau mewn pridd sy'n dueddol o ddiodef sychder. Rydym hefyd yn datblygu mathau o danwyddau sy'n gynaliadwy ac yn gyfeillgar tuag at yr amgylchedd, ac astudio effeithiau newid yn yr hinsawdd ar ein hecosystem. Mae ein hymchwilwyr yn ddarlithwyr hefyd, ac mae hynny'n sicrhau eich bod yn cael eich dysgu gan rai o'r arbenigwyr pennaf yn eu meysydd.

## Grŵp Ymchwil Microbioleg

Rydym ni'n astudio galluedd ecolegol, ffisiolegol a metabolig amrywiaeth eang o ficro-organebau, yn benodol ffyngau a bacteria. Ein nod yw deall eu rolau pwysig o fewn swyddogaeth ecosystem, darganfod sut i fanteisio arnynt yn well mewn biotechnoleg, a chyfaddasu eu heffaith, llesol a niweidiol, ar bobl, anifeiliaid dof, planhigion a'r amgylchedd naturiol.

## Grŵp Ymchwil Biosystemau Moleciwlaidd


Rydym ni'n defnyddio ymagweddau moleciwlaidd at astudio systemau byw fel cynulliaidau o brosesau cemegol. Mae'r grŵp hwn yn dod â gwyddonwyr at ei gilydd sy'n cymhwyso'r ymagweddau diweddaraf i fynd i'r afael â nifer o heriau byd-eang, yn cynnwys datblygu gwrthficrobau newydd a chyfansoddion meddyginiaethol eraill, a chynnyddu effeithlonrwydd amaethyddol ar gyfer cynhyrchu bwyd a biodanwydd. Mae'r strategaethau a ddefnyddir yn cynnwys dulliau traddodiadol ac arloesol o wahanu a nodweddu biofoleciwlau, yn ogystal ag ymagweddau genomig, proteomig a metabolomig.

## Grŵp Ymchwil Parasitoleg ac Epidemioleg

Mae'r grŵp hwn yn cynnal ymchwiliadau sy'n ymdrin â pherthnasoedd cydesblygiol rhwng parasitiaid a'u horganebau lletyol, ac ymchwiliadau'n seiliedig ar systemau. Rydym ni'n ymdrin â rhai o broblemau iechyd mwya'r byd a achosir gan bathogenau biofeddygol a milfeddygol. Mae ein diddordebau ymchwil yn rhychwantu amrywiaeth o ddisgyblaethau ac yn cynnwys parasitoleg foleciwlaidd a biocemegol, epidemioleg tirwedd clefydau a gludir gan fectorau, a goblygiadau esblygol ac imiwnolegol rhyngweithio rhwng organebau lletyol a pharasitiaid. Rydym ni'n ystyried amrywiaeth o glefydau heintus a achosir gan feirysau, bacteria, protosoa, microsporidia a helminthau.

## Grŵp Ymchwil Diet, Ymarfer Corff ac Iechyd

Mae'r grŵp hwn mewn safle unigryw yn y DU i gysylltu astudiaethau rhyngwladol ar y berthynas achosol rhwng diet, ymarfer corff ac iechyd â bridio planhigion ac anifeiliaid yn ogystal â ffenoteipio cemegol deunyddiau bwyd. Gan ganolbwyntio ar ddefnyddio technoleg metabolomeg mae'r grŵp wedi datblygu prosiectau cydweithredol gydag arbenigwyr clinigol sydd â diddordeb mewn datblygu dulliau sgrinio olion bysedd ar gyfer clefydau dynol. Mae rhaglenni ymchwil strategol craidd yn cyfoethogi ansawdd cynhyrchion anifeiliaid i fodloni gofynion gan ddefnyddwyr sy'n newid yn gyflym am fwyd sy'n ddiogel, yn iach, y gellir ei olrhain ac sydd o ansawdd bwyta cyson, yn amrywiol ac yn gyfleus.



# Uchafbwyntiau ymchwil

## Technoleg i atal gor-bysgota octopysau

Mae gwyddonwyr yn datblygu technoleg newydd i atal gor-bysgota octopysau a chreaduriaid eraill y môr. Mae pysgota octopysau, sgwid a phenbedogionv(seffalopodau) eraill - a adnabyddir hefyd fel pysgod inc gan eu bod i gyd yn gallu chwistrellu inc - wedi cynyddu'n sylweddol dros y chwe degawd diwethaf. Nod tîm ymchwil amlddisgyblaethol yw mynd i'r afael â hynny drwy ddefnyddio DNA amgylcheddol, dysgu peirianyddol ac offer deallusrwydd artifisial i greu rhwydwaith olrhain bwyd y môr er mwyn gwella rheoli stoc a sicrhau cynaliadwydd octopysau a gaiff eu pysgota.



## Gwyddonwyr yn harneisio technoleg i wella adferiad cleifion strôc

Gan weithio gyda chydweithwyr yn yr Adran Cyfrifiadureg, mae ein gwyddonwyr wedi datblygu ap ffôn i wella ansawdd bywyd cleifion strôc y mae'r cyflwr wedi effeithio ar eu symudedd. Mae'r dyfeisiau y gellir eu gwisgo'n defnyddio deallusrwydd artifisial i fesur eu gallu i symud er mwyn monitro a gwella adferiad ymarfer corff mewn cleifion strôc.

## Cwmni deillio newydd y Brifysgol yn datblygu profion diagnostig ar gyfer clefydau dynol ac anifeiliaid

Mae ymchwilwyr yn gweithio ar dechnolegau diagnostig newydd a allai achub bywydau miloedd o bobl. Mae'r ymchwil wedi canolbwyntio ar ddatblygu dull adnabod biofarcwr neu 'ôl bysedd' sy'n ddefnyddiol yn glinigol a phrofi ar gyfer clefydau cronig difrifol sy'n effeithio ar boblogaeth ddynol sy'n heneiddio. Mae ffrwd gyfocrog o waith wedi targedu clefydau pwysig mewn anifeiliaid. Bydd y gwaith yn galluogi rhyngweithio rhwng y claf a'r clinigydd a diagnosis heb fod angen ymgynghori clinigol wyneb yn wyneb, a thrwy hynny leihau'r angen am apwyntiadau ysbyty gwerthfawr a risg i gleifion.



## Clociau biolegol yn parhau i dicio yn ystod haf yr Arctig

Mae ein hymchwilwyr wedi darganfod fod clociau biolegol naturiol organebau morol bach yn parhau i weithredu yn yr Arctig yn ystod yr haf pan nad yw'r haul yn machlud. Bydd deall mwy am rythmau circadaidd bywyd morol yr Arctig yn helpu gwyddonwyr i ragweld yn fwy cywir sut y bydd yr ecosystem yn ymateb i heriau dyfroedd sy'n cynhesu ac iâ môr sy'n lleihau.

# Sut i wneud cais

Pan fyddwch wedi penderfynu pa gwrs yr hoffech ei astudio a ble, gallwch ddechrau'r broses o ymgeisio. Dyma gipolwg byr o'r broses a'n gweithdrefnau yma yn Aberystwyth.

## 1 Gwneud cais trwy UCAS.com

Dyddiad cau 15 Ionawr. Cod sefydliad Prifysgol Aberystwyth: A40

**Gair i gall:** Cewch rif UCAS 10 digid. Cadwch hwn wrth law oherwydd gofynnir am y rhif nifer o weithiau.

## 2 Bydd y brifysgol yn ystyried eich cynnig

**Gair i gall:** Defnyddiwch UCAS Track i gadw llygad ar eich cais. Yn Aberystwyth rydym yn ceisio gwneud penderfyniad o fewn 4 wythnos.

## 3 Bydd y cynnig i'w weld ar UCAS Track

## 4 Penderfynwch ble i fynd

Pan fyddwch wedi cael eich holl gynigion, bydd angen i chi benderfynu i ba brifysgol yr hoffech fynd, o fewn amser penodol. Dyma pryd y bydd angen i chi nodi pa brifysgolion fydd eich dewisiadau cadarn ac wrth gefn.

## 5 Llety

Pan fyddwch wedi gwneud eich dewis cadarn/wrth gefn gallwch wneud cais am lety (Ebrill ymlaen).

## 6 Diwrnod y canlyniadau

Bydd UCAS Track yn cadarnhau eich cynnig o le. Os nad ydych yn sicr beth yw'r cynnig, cysylltwch â'r brifysgol yn uniongyrchol. Gwnewch yn sicr nad ydych ar wyliau ar ddiwrnod y canlyniadau. Os nad ydych yn cael y graddau yr oeddech wedi gobeithio amdanynt, efallai yr hoffech ystyried y broses Glirio

## 7 Dechreuwch bacio!



Adran Gwyddorau Bywyd  
Prifysgol Aberystwyth,  
Penglais,  
Aberystwyth,  
Ceredigion, SY23 3DA

+44 (0) 1970 62 1986

ibers@aber.ac.uk

/IBERSAberUni

@ibers\_aber

Wedi'u dylunio a'u cynhyrchu gan  
Marchnata a Denu Myfyrwyr,  
Prifysgol Aberystwyth 2022.



Argraffwyd ar bapur  
wedi'i ailgylchu 100%